# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 3 E+W

DARPARIAETHAU SY'N GYMWYS I BOB CONTRACT MEDDIANNAETH

## PENNOD 7 E+W

YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL AC YMDDYGIAD GWAHARDDEDIG ARALL

### 55 Ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall E+W

(1) Rhaid i ddeiliad y contract o dan gontract meddiannaeth beidio ag ymddwyn na bygwth ymddwyn mewn modd a allai beri niwsans neu annifyrrwch i berson sydd â hawl (o ba bynnag ddisgrifiad)—

(a) i fyw yn yr annedd sy'n ddarostyngedig i'r contract meddiannaeth, neu

(b) i fyw mewn annedd neu lety arall yng nghyffiniau'r annedd sy'n ddarostyngedig i'r contract meddiannaeth.

(2) Rhaid i ddeiliad y contract beidio ag ymddwyn na bygwth ymddwyn mewn modd a allai beri niwsans neu annifyrrwch i berson sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch cyfreithlon—

(a) yn yr annedd sy'n ddarostyngedig i'r contract meddiannaeth, neu

(b) yng nghyffiniau'r annedd honno.

(3) Rhaid i ddeiliad y contract beidio ag ymddwyn na bygwth ymddwyn mewn modd—

(a) a allai beri niwsans neu annifyrrwch—

(i) i'r landlord o dan y contract meddiannaeth, neu

(ii) i berson (boed wedi ei gyflogi gan y landlord ai peidio) sy'n gweithredu mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r landlord o ran rheoli tai, a

(b) sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â swyddogaethau'r landlord o ran rheoli tai, neu'n effeithio arnynt.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, PENNOD 7 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 22 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(4) Ni chaiff deiliad y contract ddefnyddio na bygwth defnyddio'r annedd sy'n ddarostyngedig i'r contract meddiannaeth, gan gynnwys unrhyw rannau cyffredin ac unrhyw ran arall o adeilad sy'n ffurfio'r annedd, at ddibenion troseddol.

(5) Rhaid i ddeiliad y contract beidio, drwy unrhyw weithred neu anwaith—

- (a) caniatáu, cymell nac annog unrhyw berson sy'n byw yn yr annedd neu'n ymweld â'r annedd, i ymddwyn fel y crybwyllir yn is-adrannau (1) i (3), na
- (b) caniatáu, cymell nac annog unrhyw berson i ymddwyn fel y crybwyllir yn is-adran (4).

(6) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract meddiannaeth; mae adran 20 yn darparu—

- (a) bod rhaid ymgorffori'r adran hon, a
- (b) na chaniateir ymgorffori'r adran hon ynghyd ag addasiadau iddi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 55 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** A. 55 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

## 56 Y pŵer i ddiwygio adran 55 E+W

Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio adran 55 drwy reoliadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 56 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I4** A. 56 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, PENNOD 7 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 22 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

– s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
– s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
– s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
– s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5